Gyrfa Cymru
Careers Wales

Career Choices Dewis Gyrfa
Gyrfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol 2021-22

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr | 3 |
| Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd | 4-5 |
| Ein gwasanaethau | 6-7 |
| Ein model busnes | 7 |
| Dyfodol Disglair: canlyniadau strategol a DPA | 8-11 |
| Cipolwg ar y flwyddyn | 12 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 13 |
| Gwasanaethau digidol | 14-15 |
| Cefnogi pobl ifanc | 16-18 |
| Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion | 19-20 |
| Cymru'n Gweithio | 21-23 |
| Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos | 24-29 |
| Ymrwymiadau eraill | 30-31 |


**I gael cymorth neu gyfarwyddyd gyrfaoedd**

Ffoniwch 0800 028 4844
gyrfacymru.llyw.cymru
post@gyrfacymru.llyw.cymru
Sgwrs ar-lein
Iaith Arwyddion Prydain

**Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020-21. Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall o dwf a datblygiad i Gyrfa Cymru, sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd ein gwasanaeth gwybodaeth, anogaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed.

2020-21 oedd blwyddyn gyntaf ein strategaeth pum mlynedd, Dyfodol Disglair. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein cyflawniadau allweddol yn erbyn y weledigaeth hon, a sut y bu i'n gwasanaethau gefnogi pobl Cymru ac economi Cymru.

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol y manylir arnynt yn yr adroddiad yn cynnwys nifer y bobl a gefnogwyd drwy wahanol wasanaethau yn ystod y cyfnod hwn, a'r ffyrdd arloesol y mae ein timau wedi parhau i weithio gyda chyflogwyr ac ysgolion yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn cynnwys ein rhith-Wythnos Darganfod Gyrfa gyntaf ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a datblygiad ein pecyn cymorth addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Yn ystod 2021-2022, roedd modd i ni ailagor ein holl ganolfannau i gefnogi cwsmeriaid wyneb yn wyneb ac fe wnaethom hefyd barhau i ddarparu cymorth drwy ein cynnig digidol cryf.

Gyda gweithio mewn partneriaeth yn un o nodweddion craidd Cymru'n Gweithio, rydym yn falch o'r cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU i gefnogi pobl Cymru yn ogystal â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a busnesau.

Mae'r gydnabyddiaeth a gawsom yn sgil ennill gwobrau yn ystod y flwyddyn yn glod i'r syniadau arloesol a'r gwaith caled a wneir ar draws y sefydliad. Hoffem ddiolch i'n bwrdd a'r holl gydweithwyr yn Gyrfa Cymru am eu cyfraniad parhaus, eu harbenigedd a'u gallu i addasu, a chydnabod eu hymroddiad yn hynny o beth.

Eu hymrwymiad nhw sy'n ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth strategol, Dyfodol Disglair, gan fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ac anghenion newidiol ein cwsmeriaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid.



Rydym yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni eleni, a thrwy ddiwylliant y cwmni o welliant parhaus byddwn yn parhau i ymdrechu i ddod yn wasanaeth gyrfaoedd o'r radd flaenaf gan helpu i greu dyfodol disglair i bobl Cymru.

**Erica Cassin, y cadeirydd,**
**a Nikki Lawrence, y prif weithredwr**

# Ein gweledigaeth, ein pwrpas, a'n gwerthoedd



Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Ein gweledigaeth

Creu dyfodol disglair i bobl Cymru

## Ein diben

Cefnogi pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i greu dyfodol disglair. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu mynediad at gymorth gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysg, economaidd a llesiant unigolion

## Ein gwerthoedd

- Rydym yn rhoi anghenion y cwsmer wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Rydym yn cydweithio ag eraill i gyflawni nodau cyffredin
- Rydym yn arloesol, wedi'n galluogi gan dechnoleg ac yn cael ein harwain gan ddealltwriaeth.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Gwneud gwahaniaeth:

- I bobl ifanc: gwell dealltwriaeth o'r byd gwaith, y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo a mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, wedi'u hategu gan fynediad at wasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth diduedd
- I oedolion: mynediad at wasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth proffesiynol, diduedd i'w helpu i oresgyn rhwystrau a symud ymlaen at waith a hyfforddiant teg a gweddus
- I fusnesau: drwy ein gwaith gydag ysgolion, colegau a chymunedau, bydd gan gyflogwyr gysylltiadau agosach â gweithlu'r dyfodol. Rydym yn cynorthwyo busnesau a gweithwyr sy'n wynebu colli eu swyddi, gan gefnogi ailsgilio ac uwchsgilio
- I ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion: dysgwyr wedi'u hysgogi a'u hysbrydoli a chanddynt gynlluniau clir ar gyfer eu gyrfaoedd, gan gefnogi gwell cyrhaeddiad a chynnydd
- I rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr: ymgysylltu â'r bobl ddylanwadol hyn a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael a'u bod wedi'u paratoi'n briodol i gynnig cymorth
- I Lywodraeth Cymru: mae cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth yn cefnogi gweithrediad llwyddiannus y farchnad lafur, yn gwella canlyniadau economaidd, yn cefnogi ac yn hwyluso symudedd cymdeithasol ac yn gwella llesiant pobl ifanc ac oedolion.

**Rydym yn gweithio'n agos â sefydliadau addysgol, cyflogwyr, partneriaid, a sefydliadau cymunedol i helpu pobl ifanc ac oedolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfleoedd, anghenion sgiliau, a'r farchnad lafur leol.**

**Mae gwasanaethau digidol Gyrfa Cymru yn darparu mynediad cenedlaethol i wybodaeth a chyfarwyddyd a chymorth personol ar unwaith drwy sgwrs fyw ar-lein a'r llinell gymorth.**

# Ein gwasanaethau

Dwyieithog
Diduedd
Personol
Cynhwysol

## Gwasanaethau y byd addysg

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn 8-9** | **Blynyddoedd 10-13 ac addysg bellach** |
| Ehangu gorwelion a chodi dyheadau drwy archwilio opsiynau a dewisiadau er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus | Cefnogi pontio'n llwyddiannus o addysg i hyfforddiant, dysgu pellach neu waith |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol** | **Anghenion dysgu ychwanegol** |
| Helpu i gynnal ymgysylltiad ag addysg, gwaith a hyfforddiant | Gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar gynlluniau dysgu a sgiliau a'u cefnogi er mwyn sicrhau profiadau pontio cadarnhaol |
| **Rhieni a gwarcheidwaid** | **Cysylltiadau rhwng addysg a busnes** |
| Darparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi plentyn i wneud penderfyniadau pwysig | Hwyluso cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion a cholegau er mwyn cyfoethogi dealltwriaeth o'r 'byd gwaith' |

## Gwasanaethau yn y farchnad lafur

| | | |
|---|---|---|
| **Troseddwyr ifanc ac oedolion** | **Pobl ifanc 16-18 sy'n ddi-waith** | **Pobl ifanc 18+ sy'n ddi-waith** |
| Cefnogi pobl ifanc ac oedolion yn ystod eu dedfryd a'u rhaglenni ailsefydlu | Cymorth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a help i gael mynediad at addysg, gwaith a hyfforddiant neu gymorth ychwanegol drwy asiantaethau allweddol | Cymorth i nodi a goresgyn rhwystrau unigol i gyflogaeth, ac atgyfeirio/cyfeirio pobl at asiantaethau partner |
| **Cyflogedig neu dan hyfforddiant** | **Colli swydd/diweithdra** | |
| Cefnogi ymgysylltiad a mynediad at wybodaeth/cyngor ar newidiadau gyrfa. Atgyfeiriadau i Gyfrifon Dysgu Personol mewn ardaloedd peilot | Cymorth i gael gafael ar gyllid ReAct er mwyn diweddaru sgiliau neu ailhyfforddi a chymorth cyflogadwyedd | |

# Ein gwasanaethau

Cwsmer

| Gwasanaethau digidol | |
|---|---|
| Cymorth yn ymwneud â'r cwricwlwm | Cymorth cyffredinol |
| Cefnogi ysgolion a cholegau i ddatblygu eu darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith | Ar gael i bawb: www.gyrfacymru.llyw.cymru<br>Llinell gymorth<br>Sgwrs ar-lein<br>Cyfryngau cymdeithasol |

# Ein model busnes

## Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru a lansiwyd ar 1 Ebrill 2013.

Mae'r cwmni'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, anogaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru o fewn cylch gwaith a bennwyd gan Weinidog yr Economi Llywodraeth Cymru.

Mae ein bwrdd yn cynnwys cadeirydd a hyd at 13 o gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn gofalu am drefniadau llywodraethu'r cwmni ac yn cyfrannu at y strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae llesiant economaidd a chymdeithasol Cymru wrth wraidd gwasanaethau Gyrfa Cymru, ac mae'r sefydliad wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Dyfodol Disglair:
## canlyniadau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol



### Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canlyniadau strategol a amlinellir yn Dyfodol Disglair a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) cysylltiedig ar gyfer 2021-22.

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn y DPA |
|---|---|---|---|
| 1 | Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol. | 95% o'r disgyblion sy'n cael gwasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth yn mynd i addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Bydd y garfan gyntaf i adael addysg statudol o dan Dyfodol Disglair yn gwneud hynny yn haf 2022. Bydd y DPA hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. |
| 2 | Galluogi cwsmeriaid sydd wedi elwa o lefelau uwch o gefnogaeth i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol | 85% o bobl ifanc sy'n cael cefnogaeth wedi'i thargedu yn mynd ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Bydd y garfan gyntaf i adael addysg statudol o dan Dyfodol Disglair yn gwneud hynny yn haf 2022. Bydd y DPA hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. |
| 3 | Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, gwaith a hyfforddiant a chyfleoedd eraill i wneud cynnydd | 90% o bobl ifanc mewn addysg yn dweud bod ganddynt well ymwybyddiaeth o gyfleoedd. | Dywedodd 96% o bobl ifanc bod ganddynt well ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn dilyn sesiwn gyfarwyddyd ac anogaeth (1,338 o ymatebion cadarnhaol o blith cyfanswm o 1,392 o ymatebion). |

# Dyfodol Disglair:
## canlyniadau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn y DPA |
|---|---|---|---|
| 4 | Gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr. | Cytundebau partneriaeth gyda 100% o sefydliadau partner sy'n galluogi gwell mynediad at fanteision cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth. | Llofnodwyd 98% o gytundebau partneriaeth yn 2021-22. Llofnododd 248 o blith cyfanswm o 252 o sefydliadau. |
| 5 | Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl. | Gyrfa Cymru yn hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn 95% o ysgolion uwchradd yng Nghymru. | Hwyluswyd o leiaf un gweithgaredd ymgysylltu â chyflogwyr mewn 99% o ysgolion uwchradd (205 o blith 207). |
| 6 | Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm. | 80% o gwsmeriaid yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau blaenoriaeth economaidd. | Dywedodd 81% o gwsmeriaid a gwblhaodd werthusiad yn dilyn ffair gyrfaoedd mawr ei heffaith eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth (324 o ymatebion cadarnhaol allan o gyfanswm o 398 o ymatebion i'r arolwg). |
| 7 | Gwella capasiti ysgolion ac arweinwyr gyrfaoedd i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru. | Hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol yn cael ei ddarparu i wella rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i athrawon mewn 65% o ysgolion uwchradd Cymru. | Cyflwynwyd hyfforddiant neu gefnogaeth ymgynghorol i athrawon mewn 118 o ysgolion, sef 57% o'r cyfanswm. Oherwydd Covid-19, prinder staff, a phwysau eraill, mae wedi bod yn heriol darparu cymorth sy'n gysylltiedig ag addysg a phrofiadau byd gwaith i ysgolion. |

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn y DPA |
|---|---|---|---|
| 8 | Darparu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb. | 85% o gwsmeriaid yn dweud bod eu hanghenion wedi'u diwallu gan wasanaeth ar-lein. | Ymatebodd 94% o gwsmeriaid (1,921 o ymatebion cadarnhaol o blith cyfanswm o 2,033) gan ddweud bod gwasanaeth ar-lein wedi diwallu eu hanghenion (mae hyn yn fesur o foddhad gyda'r gwasanaeth sgwrsio ar-lein). |
| 9 | Creu gweithlu Gyrfa Cymru medrus, ymgysylltiol, amrywiol ac ystwyth iawn. | 100% o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant yn cwblhau eu cymhwyster Diploma Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd Lefel 6 yn llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd a neilltuwyd.<br><br>75% o weithwyr yn adrodd lefelau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cwmni. | Cymhwysodd 18 o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant yn 2020-21. Cymhwysodd naw (50%) o fewn dwy flynedd i ddechrau eu cymhwyster.<br><br>Yn anffodus, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar y DPA hwn, yn enwedig yr heriau o ddod o hyd i gyfleoedd ymarferol i arsylwi, sy'n elfen allweddol o'r cymhwyster.<br><br>Sgôr ymgysylltu'r cwmni oedd 75.9% (yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg pobl 2021). |

# Dyfodol Disglair:
## canlyniadau strategol adangosyddion perfformiad allweddol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

| | Canlyniad strategol | DPA | Perfformiad yn erbyn y DPA |
|---|---|---|---|
| 10 | Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru. | Gwelliant yn sgiliau digidol a galluoedd gweithwyr Gyrfa Cymru. | Bydd arolwg sgiliau digidol yn cael ei gwblhau gan weithwyr yn ystod ail flwyddyn Dyfodol Disglair. |
| 11 | Seilio ein datblygiadau o ran strategaeth, polisi a gwasanaeth ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg. | Dim DPA ond caiff cynnydd ei fonitro drwy ein fframwaith gwelliant parhaus. | Dim DPA ond caiff cynnydd ei fonitro drwy ein fframwaith gwelliant parhaus. |

# Cipolwg ar y flwyddyn 2021-22

- Edrychwyd ar dudalennau gwefan Gyrfa Cymru dros **2.3 miliwn** o weithiau a defnyddiodd dros **47,000** o gwsmeriaid un o'n hoffer asesu gyrfa i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf.

- Cafodd cyfanswm o **27,304** o bobl ifanc ar draws cyfnodau allweddol 3, 4 a 5 gymorth un-i-un a chynhaliwyd **40,267** o gyfweliadau unigol. Cymerodd dros **30,000** o fyfyrwyr ran mewn sesiynau grŵp rhyngweithiol.

- Cynhaliwyd **896** o sesiynau rhyngweithio wedi'u harwain gan gyflogwyr mewn **244** o ysgolion uwchradd prif ffrwd, ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau digidol a byw, ymweliadau â safleoedd, ffug gyfweliadau, a diwrnodau 'carwsél' cyflogwyr, i gyd wedi'u hanelu at helpu pobl ifanc i ddysgu mwy am y byd gwaith. Dywedodd **87%** o blith mwy na **3,400** o bobl ifanc a fynychodd y digwyddiadau hyn eu bod yn fwy ymwybodol o'u cyfleoedd o ganlyniad.

- Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi cyrraedd dros **23,000** o bobl, gan gynnwys **4,211** o bobl ifanc 16-18 oed a thros **19,000** o oedolion 18+ oed. Arweiniodd y gwaith hwn at gynnal **55,813** o sesiynau rhyngweithio uniongyrchol â chwsmeriaid eleni.

## Rydym wedi dathlu sawl gwobr ac achrediad eleni, gan gynnwys:

**Gwobrau Llesiant Prydain, Y Cymorth Gorau i Weithwyr o Bell 2021.**

**Gwobr CDI o ran 'Y Defnydd o Dechnoleg yn y Maes Datblygu Gyrfa' 2021 ar gyfer CrefftGyrfaoedd.**

**Gwobr Aur Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus 2021 ar gyfer Ymgyrch Addysg i lansio CrefftGyrfaoedd.**

**Gwobr Arian Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus 2021 ar gyfer Ymgyrch Addysg Integredig ar gyfer lansio CrefftGyrfaoedd.**

**Archwiliad y Ddraig Werdd, cyflawni statws Lefel 4.**

# Gwasanaethau corfforaethol



Gyrfa Cymru Careers Wales

## Staffio

Nifer y staff presennol (ar 31 Mawrth 2022) oedd **626** (12 yn llai nag ar 31 Mawrth 2021) a'r niferoedd cyfwerth ag amser llawn (CALl) yw **560.96** (10.76 yn llai na 31 Mawrth 2021). Y cydbwysedd rhwng y rhywiau yw **75.9%** o fenywod, **24.1%** o wrywod.

Cynhaliwyd **43** o ymarferion recriwtio, **15** yn fwy na'r llynedd, gan gynnwys ymgyrchoedd Cymru gyfan ar gyfer cynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant a chymwys. Erys y cyfraddau cadw yn uchel, er bod y gyfradd trosiant wedi cynyddu i **6.54%** o gymharu â **4.9%** y llynedd (7.2% yn ôl CALl).

## Iechyd a llesiant

Mae iechyd a llesiant gweithwyr yn flaenoriaeth allweddol i Gyrfa Cymru, gyda ffocws penodol ar iechyd meddwl a rheoli straen. Enillodd y cwmni y wobr 'Y Cymorth Gorau i Weithwyr o Bell' yng Ngwobrau Llesiant Prydain.

Cynhaliodd Gyrfa Cymru hefyd ddigwyddiad wythnos o hyd o'r enw Materion y Meddwl, a oedd ar gael i bob gweithiwr. Cyflwynodd sesiynau ar y pum piler llesiant (cymdeithasol, ariannol, corfforol, meddyliol a digidol). Mynychwyd **911** o sesiynau byw yn ystod yr wythnos

## Dysgu a datblygu

Roedd galw mawr am ddysgu hyblyg, anffurfiol a byr a fyddai'n cyd-fynd ag ymrwymiadau eraill. Ymatebwyd i hyn drwy greu adnoddau e-Ddysgu dwyieithog mwy pwrpasol i gydweithwyr gael mynediad atynt ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw. Yn sgil lansio ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd, Atlas, a'n system AD newydd, Pobl, cododd gofynion dysgu sylweddol. Mabwysiadwyd dull 'hyfforddi'r hyfforddwr' gennym. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio clinigau ben bore i ddatrys unrhyw broblemau cychwynnol.

Ar hyn o bryd mae **23** o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant yn gweithio tuag at eu Diploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd. Mae gweithwyr wedi bod yn dilyn prentisiaethau mewn gweinyddu busnes, dylunio dysgu digidol, arwain a rheoli, dadansoddeg ddigidol, technegwyr TGCh, defnyddwyr TG a'r cyfryngau cymdeithasol. Dechreuodd saith darpar reolwr ar y rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Cwblhaodd pob cydweithiwr gwrs e-Ddysgu byr ar Gymraeg yn y Gweithle.

## Cyllid

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cyfrifon diwedd y flwyddyn ar gyfer 2021-22 yn dal i gael eu cwblhau. Mae ein cyfrifon statudol ar gyfer y tair blynedd diwethaf ar gael ar-lein a bydd cyfrifon 2021-22 yn cael eu hychwanegu maes o law.

# Gwasanaethau digidol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Edrychwyd ar dudalennau gwefan Gyrfa Cymru dros **2.3 miliwn** o weithiau, a defnyddiwyd y wefan gan gwsmeriaid bron i **500,000** o weithiau. Cafodd gwefan Cymru'n Gweithio dros **68,000** o ymwelwyr yn ystod y flwyddyn.
- Roedd y wefan yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â **750** o deitlau swyddi a sectorau diwydiant penodol. Dros y flwyddyn, defnyddiodd **82,000** o ddefnyddwyr y rhan hon o'r wefan i weld gwybodaeth alwedigaethol benodol am y farchnad lafur (GML). Fe wnaethom ychwanegu adrannau GML newydd at wefan Cymru'n Gweithio ar y sectorau gofal, lletygarwch, twristiaeth, a thrafnidiaeth a logisteg.
- Defnyddiodd dros **47,000** o gwsmeriaid un o'n hoffer asesu gyrfa i gynhyrchu awgrymiadau gyrfa personol yn seiliedig ar eu sgiliau a'u diddordebau, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf.
- Sicrhawyd bod cyfleoedd byw ar gael i'n cwsmeriaid drwy ein chwiliadau prentisiaeth a chyrsiau. Gyda'i gilydd, defnyddiwyd y rhaglenni hyn gan dros **88,500** o gwsmeriaid. Sicrhawyd bod cyfleoedd ychwanegol ar gael drwy ein bwletin swyddi.
- Cyrhaeddodd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio, gan gynnwys Twitter, Facebook, YouTube, Instagram, a LinkedIn, gyfanswm cyfunol o **66,904** o ddilynwyr erbyn diwedd y flwyddyn a chafwyd cyfanswm o **137,058** o ymatebion.
- Drwy ein gwasanaeth Cyswllt, cefnogwyd **7,533** o gwsmeriaid drwy wasanaeth sgwrsio ar-lein a **26,732** dros y ffôn. Cyswllt yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'n cwsmeriaid, ac yn aml mae'n darparu cymorth mwy hyblyg i'r rhai nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad i ganolfannau am resymau fel gofal plant, diffyg trafnidiaeth, neu anabledd.
- Lansiwyd CrefftGyrfaoedd, ein byd Minecraft newydd, er mwyn i bobl ifanc ddysgu am yrfaoedd sy'n gysylltiedig â meysydd dysgu'r cwricwlwm newydd. Cafodd y fersiwn cyhoeddus ei lawrlwytho dros **bum miliwn** o weithiau, ac enillodd dair gwobr gan gynnwys gwobr 2021 y Sefydliad Datblygu Gyrfa (CDI) yn y categori 'Y Defnydd o Dechnoleg yn y maes Datblygu Gyrfa'.

# Gwasanaethau digidol



Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Mae Gyrfa Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael drwy glicio botwm ar ffurf gwasanaethau digidol sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio.**

Mae'r wefan yn ffynhonnell wybodaeth 24/7 ac fe'i defnyddiwyd gan filoedd o gwsmeriaid drwy gydol y flwyddyn. Ymhlith y datblygiadau roedd creu adrannau newydd ar gyfer rhieni ac ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol.

Diweddarwyd nifer o'n cynhyrchion gwe i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid, megis ein cyfleuster chwilio am gyrsiau. Fe wnaethom hefyd ddechrau datblygu ein cwis gyrfaoedd newydd a lansio cynllun gweithredu hygyrchedd a fydd yn ein helpu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau o ran cael mynediad at ein gwefan.

Fe wnaethom sefydlu swyddogaeth gwybodaeth marchnad lafur (GML) newydd, a fydd yn y dyfodol yn caniatáu i ni ddatblygu mwy o GML rhanbarthol yn ogystal ag adnoddau i'n cwsmeriaid.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd modiwl marchnata o fewn system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd y cwmni, gan ein galluogi i greu cynnwys mwy personol, wedi'i dargedu ac amserol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, fe wnaethom gyflwyno canolfan gyswllt newydd ar gyfer ein gwasanaeth Cyswllt, sy'n ein cefnogi i ddarparu profiadau mwy effeithiol i gwsmeriaid. Yn y dyfodol bydd hyn hefyd yn ein helpu i gyflwyno sianeli cyswllt newydd yn unol ag anghenion ein cwsmeriaid.

Mae ein tîm arloesi digidol yn edrych yn barhaus am ffyrdd y gall Gyrfa Cymru arloesi yn y byd digidol i ddarparu ein gwasanaethau traddodiadol mewn fformat ar-lein hygyrch. Eleni, cyflwynodd y tîm ystod eang o ddigwyddiadau digidol cenedlaethol a lleol, gweminarau, adnoddau, a chynnwys.

Fe wnaethom gynnal amrywiaeth o waith ymchwil gyda defnyddwyr drwy gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio barn cwsmeriaid i helpu i lunio ein gwasanaethau a'n cynnyrch, a chynhaliwyd adolygiad o'n tirwedd ddigidol. Cynhaliwyd asesiad o aeddfedrwydd digidol i sicrhau ein bod yn gwella profiadau i gwsmeriaid yn barhaus.

# Cefnogi pobl ifanc

Gyrfa Cymru Careers Wales

- Mae ein gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cefnogi myfyrwyr i ddeall sut y gall eu dewisiadau effeithio ar eu syniadau gyrfa yn y dyfodol, gan ddefnyddio offer fel cwisiau ar-lein a sesiynau rhyngweithiol. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn lleoliadau grŵp i dros **11,000** o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9, gyda **603** o fyfyrwyr yn cael cyfweliadau un-i-un gan ymgynghorwyr.

- Cyflwynir myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 i'r byd gwaith sy'n esblygu, ac rydym yn eu hannog i ddysgu mwy am eu hopsiynau gyrfa a sut i gymryd eu camau nesaf. Cafodd **18,516** o ddisgyblion gymorth wedi'i deilwra'n benodol iddynt i drafod eu syniadau gyrfa, a mynychodd dros **16,000** sesiynau grŵp rhyngweithiol.

- Mae'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth yn canolbwyntio ar y cyfnod pontio ôl-18 a datblygu eu dealltwriaeth o'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Cafodd **3,097** o bobl ifanc y cymorth hwn drwy gyfarfodydd un-i-un a **63** o sesiynau grŵp.

- Mae myfyrwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach hefyd yn cael cymorth dilynol, cyfarwyddyd a chyfweliadau anogaeth. Yn ystod y flwyddyn, mae **5,088** o fyfyrwyr wedi manteisio ar ein cymorth.

- Mae ein cynghorwyr hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gynllunio cyfnod pontio llwyddiannus o'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddarparu **3,781** o sesiynau rhyngweithio un-i-un i **2,480** o bobl ifanc â datganiad neu statws cyfatebol.[1]

- Mae hefyd yn bwysig i'n timau ymgysylltu â rhieni, gwarcheidwaid, a gofalwyr pobl ifanc, yn ogystal â'r myfyrwyr eu hunain. Y llynedd, cofnodwyd **9,312** o gysylltiadau gyda rhieni a gofalwyr, a mynychodd cynghorwyr **196** o nosweithiau rhieni.

[1] Pobl ifanc â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol.

## Mae ein gwaith mewn ysgolion a cholegau yn cefnogi pobl ifanc i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi gymhleth a chyfnewidiol.

Gyda chynghorydd gyrfa penodedig ym mhob ysgol prif ffrwd ac ysgol arbennig yng Nghymru, mae myfyrwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chymorth gyrfaoedd drwy gydol eu teithiau addysgol. Er mwyn gwneud i hynny ddigwydd, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i gytuno ar gynllun cyflawni yn seiliedig ar anghenion yr ysgol a disgyblion unigol. Mae cynghorwyr gyrfa yn canolbwyntio ar anghenion tymor byr a thymor hir disgyblion gyda phwyslais ar:

- Ehangu eu gorwelion
- Codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad lafur fodern
- Datblygu sgiliau ar gyfer cynllunio gyrfa tymor byr a thymor hwy
- Darparu cymorth ar gyfnodau pontio allweddol i ddisgyblion sydd ei angen.

Mae ein gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn canolbwyntio ar ehangu gorwelion a chodi dyheadau pobl ifanc ym mlynyddoedd 8 a 9 wrth iddynt baratoi i ddewis eu pynciau. Mae cynghorwyr gyrfa yn cyflwyno gweithdai ar bynciau sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau, herio stereoteipio ar sail rhyw, a chyflwyno ein cwis gyrfa.

Ein ffocws yng Nghyfnod Allweddol 4 yw cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg a'u gyrfa. Rydym yn cynnig cymorth i bob disgybl, sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dyrennir disgyblion i un o bedwar categori cymorth, gan sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu trefnu yn unol ag anghenion y cwsmer:

- Cymorth cyffredinol – drwy sesiynau grŵp, gwefan (gan gynnwys sgwrsio ar-lein) a llinell gymorth
- Cymorth Gwirio Gyrfa – i'r rhai y mae ein harolwg Gwirio Gyrfa yn dangos bod angen cymorth ar ffurf cyfarwyddyd ac anogaeth arnynt
- Cymorth wedi'i dargedu – wedi'i anelu at y bobl ifanc hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i bontio'n gadarnhaol i waith, addysg a hyfforddiant
- Cymorth i Ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

# Cefnogi pobl ifanc



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Mae cynghorwyr gyrfa ar gael i gefnogi pobl ifanc mewn addysg ôl-16 yn y chweched dosbarth a'r coleg. Mae'r cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar y dysgwyr hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio â chwblhau eu cwrs ôl-16.

Mae gennym dîm o gynghorwyr sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad y tu allan i ysgolion prif ffrwd (addysg heblaw yn yr ysgol) neu gartref, gan sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael cyfle cyfartal i gael cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth.

Rydym yn cydnabod bod rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn ddylanwadwyr allweddol ar benderfyniadau gyrfa llawer o bobl ifanc. Mae ymgysylltu â rhieni yn flaenoriaeth allweddol i ni, gan roi'r wybodaeth a'r cyfarwyddyd diweddaraf iddynt er mwyn cefnogi eu plentyn wrth gynllunio ei yrfa. Mae ein cynghorwyr yn mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau lle y gallant rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am opsiynau a'r farchnad lafur.

## Hynt disgyblion 2021

Mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o hynt ymadawyr ysgol bobl blwyddyn ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff yr arolwg hwn ei lunio drwy ddefnyddio data a ddarperir gan Gyrfa Cymru ac mae'n edrych ar y llwybrau dilyniant i addysg, gwaith a hyfforddiant a ddewiswyd gan bobl ifanc. Mae'n rhoi cipolwg defnyddiol ar hynt disgyblion ac mae hyn o gymorth i staff gyrfaoedd yn eu gwaith gyda chwsmeriaid, rhieni, athrawon a chyflogwyr, yn ogystal â bod yn gymorth amhrisiadwy i bartneriaid a chydweithwyr sy'n ymwneud â chynllunio cyfleoedd dysgu, hyfforddi a gwaith.

Ymysg y canfyddiadau allweddol o arolwg o 55,387 o ymadawyr Ysgol yn 2021 mae'r canlynol:

- Aros mewn addysg amser llawn yw'r dewis mwyaf poblogaidd i ddisgyblion o hyd ym mhob un o'r tri grŵp blwyddyn
- Roedd 813 o ymadawyr ysgol o Flynyddowedd 11, 12 as 13 yn NEET yng Nghymru sy'n cynrychiol 1.5% o gyfanswm y garfan
- Roedd canran y bobl ifanc sy'n dilyn rhaglenni hyfforddiant a gwaith (statws Cyflogedig ac Anghyflogedig) Llywodraeth Cymru ar ei huchaf ymysg y rhai ym Mlwyddyn 13 ar 13.5% (1477 o unigolion), roedd yn 7.8% (2,500 o unigolion) yng ngharfan Blwyddyn 11 a 2.1% (259 o unigolion) o garfan Blwyddyn 12.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma: [Hynt disgyblion | Careers Wales (llyw.cymru)]

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

Gyrfa Cymru
Careers Wales

- Fe wnaethom gyflwyno ein hwythnosau darganfod gyrfa rhithwir cyntaf i ysgolion cynradd (Chwefror 2022) ac ysgolion uwchradd (Gorffennaf 2021). Roeddent yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gyrfaoedd digidol dan arweiniad cyflogwyr a mynychodd cyfanswm o **330** o ddisgyblion am yr wythnos gyfan neu ran o'r wythnos.
- Rydym wedi cynnal **445** o sesiynau hyfforddi ac ymgynghori gydag athrawon mewn **180** o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar bynciau allweddol, fel ymgorffori addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n cysylltiedig â byd gwaith yn y cwricwlwm, arwain rhaglenni addysg a phrofiadau byd gwaith, gwybodaeth am y farchnad lafur, ac offer ac adnoddau addysg a phrofiadau byd gwaith.
- Ym mis Mawrth 2022, buom yn cydweithio â chwmni digidol i hwyluso ffair gyrfaoedd Dewiswch Eich Dyfodol ledled y wlad gan ddefnyddio platfform ar-lein. Roedd y platfform yn cynnwys **89** 'bwth' ar gyfer gwahanol gyflogwyr ac roedd modd i bobl ifanc ymgysylltu'n rhithwir â chyflogwyr o ystod eang o sectorau. Cofrestrodd cyfanswm o **1,763** o bobl ifanc o bob rhan o Gymru ar gyfer y digwyddiad.
- Cafodd **12** o sefydliadau addysgol eu Marc Gyrfa Cymru cyntaf, a chafodd 26 o sefydliadau eu hailachredu ledled Cymru. Mae'r wobr, sydd yn ei blwyddyn olaf oherwydd y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru, yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus wrth gyflwyno addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

**Mae ein tîm o gynghorwyr cyswllt busnes yn dod ag ysgolion a chyflogwyr ynghyd, gyda'r nod o hysbysu, ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc ynghylch eu cyfleoedd gyrfa. Mae ein cydlynwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr addysg proffesiynol i ddarparu rhaglenni addysg gyrfaoedd effeithiol.**

Mae gwaith ymgysylltu â chyflogwyr mewn ysgolion wedi parhau drwy gydol Covid-19 ac mae nifer o gyflogwyr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu digidol. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau byw drwy Microsoft Teams, gweminarau gyda chyflogwyr yn cynrychioli sectorau twf gan gynnwys y sector 'gwyrdd', y sector adeiladu, STEM, a'r sector creadigol, yn ogystal â chyfres o drafodaethau panel digidol. Rydym hefyd wedi datblygu llyfrgell helaeth o tua **900** o fideos cyflogwyr i'w rhannu ag ysgolion. Lle roedd hynny'n bosibl, cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr wyneb yn wyneb, gan gynnwys ffug gyfweliadau, cyflwyniadau, ymweliadau â safleoedd a diwrnodau carwsél, i gyd wedi'u mapio ar sail addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

Fe wnaethom barhau i hwyluso ffeiriau gyrfaoedd mawr 'Dewiswch Eich Dyfodol', gyda'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyflwyno'n ddigidol, ac ambell ddigwyddiad byw. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau 'Beth Nesaf?' rhanbarthol i bobl ifanc ag ADY, digwyddiad 'Cymraeg yn y Gweithle' a ffair gyrfaoedd digidol genedlaethol. Fe wnaethom hefyd gyflwyno dwy wythnos darganfod gyrfa ddigidol, wedi'u hanelu at bobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Eleni lansiwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Gyfnewidfa Addysg Busnes, ein cronfa ddata genedlaethol o gyflogwyr sy'n barod i gefnogi ysgolion. Yn ogystal, lansiwyd y fenter Partneriaid Gwerthfawr Ysgol, sy'n ceisio meithrin cysylltiadau cynaliadwy rhwng ysgolion a chyflogwyr allweddol. Anrhydeddwyd llawer o'r cyflogwyr hyn yn ein rhith seremoni Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr ar 25 Tachwedd.

Rydym wedi parhau i gyflwyno prosiectau ar y cyd â phartneriaid a datblygu partneriaethau newydd. Cyflwynir y prosiect Sbardun yn rhanbarthol gyda phartneriaid awdurdodau lleol ac mae wedi'i anelu at bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Rydym wedi darparu ystod eang o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr fel rhan o'r prosiect hwn ac wedi lleoli dros **150** o bobl ifanc mewn cyfleoedd profiad gwaith wedi'u teilwra. Rydym bellach wedi dechrau gweithio ar brosiect i leoli **100** o bobl ifanc a nodwyd ar leoliadau gwaith wedi'u teilwra fel rhan o brosiect Adnewyddu a Diwygio a arweinir gan Lywodraeth Cymru i helpu'r rhai y mae Covid-19 yn effeithio arnynt. Yn 2021-22 hefyd fe wnaethom ymrwymo i bartneriaeth strategol gyda'r elusen Speakers for Schools, gan hyrwyddo miloedd o gyfleoedd profiad gwaith rhithwir ledled y DU i bobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru.

Yn sgil newidiadau'n deillio o'r Cwricwlwm i Gymru, 2021-22 oedd blwyddyn olaf ein hofferyn gwella Marc Gyrfa Cymru. Cafodd **38** o leoliadau eu hachredu neu eu hailachredu â'r marc, a chafodd y dyfarniad ei ail-frandio i'w ddefnyddio mewn lleoliadau addysg bellach lle nad yw'r cwricwlwm yn newid. Gwnaed gwaith gyda Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Datblygu Gyrfa (CDI) ar astudiaeth ddichonoldeb i ddisodli'r marc.

Mae cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid yn rhan annatod o'n gwaith. Yn ystod 2021-22, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Sefydliad Datblygu Gyrfa, ac amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Estyn, consortia rhanbarthol, a Chymwysterau Cymru, i ddatblygu pecyn cymorth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i gefnogi ysgolion i ddylunio, gweithredu a gwerthuso rhaglenni yn y maes hwn. Lansiwyd y pecyn cymorth gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, ynghyd â chyfres o sesiynau dysgu proffesiynol digidol cenedlaethol yn cynnwys athrawon o **126** o ysgolion ledled Cymru. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi adnodd wedi'i anelu at athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd gymhwyso, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a Phrifysgol Abertawe.

# Cymru'n Gweithio



Working Wales
#changeyourstory

## Lansiwyd Cymru'n Gweithio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2019 fel dull wedi'i deilwra o ddarparu cyfarwyddyd a chymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd hygyrch a diduedd i bobl Cymru.

**Mae'r gwasanaeth wedi'i dargedu at bobl ifanc 16-17 oed o'r adeg y maent yn gadael addysg, ac oedolion 18+ oed. Mae'n pwysleisio presenoldeb lleol yn ogystal â chenedlaethol, gan gynorthwyo pobl i gyrraedd eu cyrchfan nesaf, gan gynnwys dysgu pellach, cyfleoedd hyfforddi, sicrhau cyflogaeth, a chymorth ar ôl colli swydd.**

**Mae gwasanaethau i gefnogi cwsmeriaid wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gynhwysfawr. Darperir cymorth mewn fformat cymysg i weddu i anghenion a dewisiadau cwsmeriaid, ac mae'n cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb, darpariaeth grŵp, llinell gymorth ffôn a gwasanaeth sgwrsio ar-lein, yn ogystal â chymorth dros y ffôn a sianeli digidol eraill.**

**Er i'r cyfyngiadau amrywiol yn ymwneud â Covid darfu ar ein hystod lawn o gyfleusterau allgymorth eleni, parhawyd i gynnig cymorth drwy gyfuniad o sesiynau rhyngweithio digidol a phersonol. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, fe wnaethom ddychwelyd fwyfwy at ystod eang o leoliadau allgymorth, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau gwaith a hybiau cymunedol.§**

- **Pobl ifanc:** cefnogwyd **4,211** o bobl ifanc, **15-17** oed drwy'r gwasanaeth. Roedd y cymorth a ddarparwyd yn cynnwys **8,554** o sesiynau rhyngweithio uniongyrchol â chwsmeriaid unigol, gan gynnwys **1,399** o sesiynau rhyngweithio wyneb yn wyneb, **4,588** o gyfweliadau dros y ffôn, **2,356** o sesiynau rhyngweithio drwy ein llinell gymorth, a **134** o gyfweliadau fideo. Fe wnaethom hefyd gynnal **7,126** o ymyriadau eiriolaeth ar ran pobl ifanc gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

- **Oedolion:** mae'r gwasanaeth yn cefnogi cwsmeriaid 18+ sy'n ddi-waith, sy'n economaidd anweithgar, sy'n wynebu colli eu swyddi, sy'n wynebu rhwystrau i gamu ymlaen yn eu gyrfa, neu sy'n awyddus i newid gyrfa. Yn ystod 2021-22, cafodd dros **19,000** o oedolion gymorth gan Cymru'n Gweithio, a ddarparwyd drwy **47,259** o sesiynau rhyngweithio uniongyrchol â chwsmeriaid unigol. Roedd y sesiynau rhyngweithio hyn yn cynnwys **7,402** o sesiynau rhyngweithio wyneb yn wyneb, **26,139** o sesiynau rhyngweithio dros y ffôn, a **1,663** o sesiynau rhyngweithio drwy fideo. Yn ogystal â hynny, cafwyd dros **11,000** o alwadau i'n llinell gymorth yn 2021-22. Fe wnaethom hefyd gynnal **10,800** o ymyriadau eiriolaeth ar ran cwsmeriaid gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

- **Colli swyddi:** mae cymorth i gwsmeriaid sy'n wynebu colli eu swydd yn cael ei ddarparu gan ein cynghorwyr o fewn rhaglen estynedig ReAct. Yn ystod 2021-22, bu cynghorwyr yn gweithio gyda **2,967** o unigolion, gan gynnal dros **7,300** o ymyriadau uniongyrchol a chreu **1,636** o gynlluniau gweithredu. Mae'r tîm ymroddedig hwn yn helpu i leihau'r anawsterau a'r aflonyddwch a wynebir gan bobl yn ystod y cyfnod hwn. Llwyddodd **25%** o gwsmeriaid a ddilynodd y rhaglen ReAct eleni i gael swydd ar ôl ei chwblhau.
- **Ystâd ddiogel:** yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gefnogi **366** o garcharorion ledled Cymru a chynnal **1,371** o ymyriadau, gan gynnwys cymorth dilynol. Effeithiodd y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau'n sylweddol ar ein gwaith mewn carchardai gan fod yr holl waith hwnnw'n cael ei wneud wyneb yn wyneb. O ganlyniad i hynny, fe wnaethom gynyddu ein ffocws ar droseddau ieuenctid a thimau prawf ledled Cymru i gynnig gwasanaeth ar ôl rhyddhau. Cyn gynted ag y codwyd y cyfyngiadau, fe wnaethom ddychwelyd i bob carchar yng Nghymru ac mae'r galw ar gynnydd unwaith eto.
- Mae cymorth i oedolion o fewn y gwasanaeth Cymru'n Gweithio hefyd yn cael ei ddarparu i droseddwyr yn y ddalfa. Gan ddefnyddio proses atgyfeirio, mae gan garcharorion fynediad at ganllawiau un-i-un, yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur leol a chymorth i wneud cais am gyfleoedd cyn rhyddhau. Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedyn yn parhau i fod ar gael i bobl ar ôl eu rhyddhau o'r carchar i'w cefnogi yn ystod y cyfnod pontio hwn.

## Digwyddiadau:

**Eleni, hwylusodd a mynychodd tîm Cymru'n Gweithio nifer o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda'r nod o gefnogi cwsmeriaid sy'n dechrau gweithio neu gwrs hyfforddi.**

**Roedd hyn yn cynnwys pedair ffair swyddi a gyrfaoedd rhanbarthol o dan un faner 'Eich Gyrfa, Eich Dyfodol', a gafodd ei chynllunio, ei threfnu, a'i chynnal mewn partneriaeth â'r Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Hwn hefyd oedd y tro cyntaf i bob digwyddiad rhanbarthol gael ei gynnal o fewn yr un wythnos.**

**Nod y digwyddiad oedd cefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig, megis gweithwyr ar ffyrlo a'r rhai sydd mewn perygl mawr o golli eu swyddi/diweithdra, a chodi ymwybyddiaeth o'r sectorau twf a phrinder sgiliau ledled Cymru. Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021, yn cynnwys 158 o stondinau arddangos a 266 o gofrestriadau gan gyflogwyr a phartneriaid.**

Roedd digwyddiadau Cymru'n Gweithio eraill yn cynnwys:

- Ffair Gyrfaoedd y DU yn Stadiwm Principality Caerdydd, ble yr ymgysylltodd y tîm â thros **100** o gyfranogwyr ar y diwrnod
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau dros dro a hwyluswyd mewn lleoliadau allweddol i gerddwyr ledled Cymru
- Ffair Gyflogaeth Cymru yng Nghasnewydd lle y bu cynghorwyr yn cefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.

**Fel rhan o wasanaeth ReAct Llywodraeth Cymru, mae ein timau o gynghorwyr gyrfa yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac unigolion sy'n wynebu colli eu swyddi. Yn aml, ein cynghorwyr yw'r bobl gyntaf ar y safle i helpu, ac maent yn cynnig cymorth a chyfarwyddyd i bobl sy'n wynebu profiadau trawmatig a heriol. Maent yn darparu pecynnau i gyflogwyr sy'n cynnwys cymorth 'ymateb cyflym', cyfarwyddyd gyrfaoedd un-i-un, cymorth sgiliau cyflogadwyedd, a chymorth i baratoi ceisiadau. Mae cyfradd llwyddiant y bobl a gefnogir gan y rhaglen hon yn glod i'r cynghorwyr gyrfa sy'n gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu pobl drwy'r cyfnod anodd hwn.**

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos



Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Geirda

"Rwy'n falch iawn fy mod i wedi penderfynu mynd i weld y cynghorydd gyrfa, fe wnaeth i mi deimlo'n llawer gwell am y dyfodol."

"Fe wnaeth y cynghorydd gyrfa fy helpu i ddeall fy nghyfleoedd ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny."

"Roeddwn i'n hapus iawn i ymweld â Gyrfa Cymru! Rwyf bellach yn teimlo fy mod i ar y trywydd iawn!"

"Diolch am yr holl gymorth a chyngor arbenigol yn ystod ein sgwrs y bore 'ma, fe wnaeth i mi ymlacio a gwneud i mi deimlo'n llawn fwrw ati."

"Llawn cydymdeimlad a rhoddodd hwb i'm hyder."

"Cymorth anhygoel, roeddwn i'n teimlo'n falch iawn pan adewais i gan wybod bod gen i gynllun."

"Dim ond gair i roi gwybod i chi bod fy hyfforddiant wedi cael ei gymeradwyo. Diolch yn fawr iawn. Roeddech chi mor barod i helpu."

"Hoffwn roi gwybod i chi fy mod i wedi pasio'r prawf gyrru ymarferol. Rwy'n barod i daclo'r ffyrdd ar hyd a lled y wlad nawr fel gyrrwr cerbydau trwm - diolch i Gyrfa Cymru am eich holl gefnogaeth."

"Roeddwn i eisiau ysgrifennu atoch chi'ch dau i ddiolch i chi am yr holl help rydych chi wedi'i roi i mi. Rwyf wedi llwyddo i ddod o hyd i swydd rwy'n gwirioni arni. Mae'n amheus gen i a ydych chi'n sylweddoli faint o help y mae'r ddau ohonoch wedi'i roi i mi. Nid dim ond help gyda gwybodaeth am sut i gael swydd, ond mae hefyd wedi helpu fy iechyd meddwl yn ddi-os. Gall ceisio dod o hyd i waith fod yn anodd iawn yn emosiynol. Mae proses gyfan Gyrfa Cymru wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i mi."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Cymru'n Gweithio

Roedd Euron Jones wedi gweithio fel ffotograffydd stiwdio a ffotograffydd llawrydd ers 20 mlynedd. Roedd bob amser wedi bod eisiau gweithio fel gweithredwr camera, ond nid oedd ganddo'r hyder i fynd amdani.

Pan ddaeth y pandemig, ni allai weithio oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Defnyddiodd Euron ei gysylltiadau i gael gwaith llawrydd fel gweithredwr camera cynorthwyol, a gynyddodd ei hyder gan roi cyfle iddo ddatblygu ei bortffolio.

Aeth i'r ganolfan ym Mhorthmadog i gael cymorth. Cafodd help i ysgrifennu ei CV cyntaf ers dros 20 mlynedd, yn ogystal ag ysgrifennu ffurflen gais a pharatoi ar gyfer cyfweliadau. Gan weithio gyda'i gynghorydd, llwyddodd i gael swydd fel gweithredwr camera/golygydd gyda Tinopolis, cwmni cynhyrchu teledu.

### Meddai:

"Gyda help Cymru'n Gweithio, rwyf yn fy swydd ddelfrydol. Alla i bron ddim credu'r peth."

"Roedd fy nghynghorydd yn wych. Rhoddodd lawer o help i mi gyda fy CV, ffurflen gais a hyd yn oed cyfweliadau. Rhoddodd awgrymiadau i mi ar beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud, a roddodd hwb mawr i fy hyder."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru Careers Wales

## Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

Darpariaeth addysgol a drefnir gan awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion penodol pobl ifanc nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu mynychu ysgol prif ffrwd yw AHY.

Yn yr un modd ag ysgolion prif ffrwd, arweiniodd y pandemig at newid i ddysgu ar-lein. Yng Nghaerdydd, darparwyd darllediadau byw i ddysgwyr AHY ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys, 'Pwy ydym ni? Beth yw cyfarwyddyd gyrfaoedd', 'Blwyddyn newydd, dechrau newydd – creu cynlluniau gweithredu', 'Opsiynau ar ôl blwyddyn 11', a 'Sgiliau a rhinweddau'. Cafodd y sesiynau eu recordio a'u rhyddhau i ddisgyblion a thiwtoriaid eu defnyddio yn ôl yr angen. Cyflwynwyd sgyrsiau i gyflogwyr hefyd a chafwyd adborth ardderchog.

Gofynnodd tiwtoriaid AHY cymunedol i'r darllediadau byw misol barhau a gofynnwyd am ffocws ar gyflogwr. Cyfyngedig yw'r rhyngweithio rhwng disgyblion sy'n cael eu tiwtora yn y gymuned a chyflogwyr a'r byd gwaith, sy'n golygu eu bod yn tueddu i golli cyfleoedd i ymgysylltu â chyflogwyr. Roedd y dull newydd hwn yn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i glywed am wahanol swyddi, gofynion mynediad, a'r sgiliau sydd eu hangen yn uniongyrchol gan gyflogwyr.

Roedd sesiynau misol yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cartref Cŵn, Salon Trin Gwallt Cwtch, BBC Cymru Wales, Screen Alliance Wales, Wales Interactive, Tiny Rebel Games, a Wates Construction. Yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd, cynyddodd y sesiynau hyn y cymorth y gall Gyrfa Cymru ei roi i'r dysgwyr hyn.

## Adborth gan diwtoriaid:

- "Roeddwn i'n meddwl bod y sgwrs heddiw'n wych – ysbrydoledig iawn"
- "Roeddwn i'n meddwl ei fod yn ardderchog – ysbrydoledig iawn yn enwedig i'n pobl ifanc."
- "Diolch yn fawr iawn am y cynnig hynod hael a charedig i ddatblygu cysylltiadau gyda disgyblion yn ein gwasanaeth AHY. Roedd ein cydlynydd AHY wedi'i syfrdanu gyda'ch cynnig ac mae wedi cadarnhau yr hoffem gydweithio â chi (BBC)."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos



Gyrfa Cymru Careers Wales

## Ymgysylltu â busnesau - Wythnos Darganfod Gyrfa

Cynhaliwyd Wythnos Darganfod Gyrfa rithwir i ysgolion uwchradd rhwng 5 – 9 Gorffennaf 2021.

Cofrestrodd **146** o ysgolion am yr wythnos gyfan neu ran ohoni, ac fe'i cefnogwyd gan dros **150** o gyflogwyr o bob rhan o Gymru o ystod eang o sectorau, megis Dŵr Cymru, Bluestone, Banc NatWest, Tata Steel, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Target Group, a llawer mwy.

Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau, gan gynnwys fideos a blogiau fideo gan gyflogwyr wedi'u recordio ymlaen llaw, cyflwyniadau byw, paneli holi ac ateb gyda chyflogwyr, a thasgau ymchwil, megis sut y mae mathemateg a rhifedd yn cael eu defnyddio yn y gweithle. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys heriau gan gyflogwyr yn ymwneud â defnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg wrth weithgynhyrchu cynhyrchion newydd, yn ogystal â theithiau rhithwir o amgylch safleoedd a gwesteion dirgel. Ategwyd hyn i gyd gan ganllaw cynhwysfawr, rhyngweithiol i athrawon ac roedd y diwrnod olaf yn ymdrin â datblygu sgiliau pellach, goresgyn rhwystrau, ceisiadau, a gwneud cynlluniau gyrfa.

### Sylwadau athrawon:

- "Amrywiaeth eang o gyflogwyr a chanddynt wybodaeth a chyngor gwych. Roedd y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda iawn gyda chysylltiadau ac adnoddau da."
- "Roeddwn i'n hoffi'r ffordd yr oeddwn i'n gallu cyfeirio at y canllaw i athrawon a dewis gweithgareddau priodol. Roedd cael fideos y gallwn eu gwylio yn ôl yr angen yn ddefnyddiol iawn yn ogystal â'r ffrydiau byw hefyd."
- "Roedd gan ddisgyblion ddiddordeb mawr yn yr holl yrfaoedd lle roedd gwyddoniaeth yn hanfodol."

### Sylwadau myfyrwyr:

- Fe wnaeth i mi feddwl am y dyfodol a'm hysgogi i wneud yn dda yn yr ysgol
- "Roeddwn i'n meddwl bod y sgwrs heddiw yn wych – ysbrydoledig iawn."
- "Darganfod fy sgiliau a pha swyddi sydd ar gael."

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Cefnogaeth i'r cwricwlwm – Tystysgrif mewn Arweinyddiaeth Gyrfa

Mae tîm cymorth cwricwlwm Gyrfa Cymru yn darparu ystod o gymorth i ysgolion, gan gynnwys gweithgaredd dysgu proffesiynol i athrawon er mwyn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfle i athrawon sy'n arwain gwaith gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion i gwblhau cymhwyster Lefel 6 wedi'i achredu gan OCR o'r enw Tystysgrif Arweinyddiaeth Gyrfaoedd. Yn ystod 2021-22, cymeradwywyd y cyflawniad dysgu proffesiynol hwn gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL).

**Fel rhan o'n cais am statws ardystiedig, nododd NAEL nifer o gryfderau allweddol:**

- Roedd y cais yn drefnus, a chyflwynwyd tystiolaeth glir yn erbyn pob maen prawf
- Darpariaeth bwrpasol mewn cyd-destun i adlewyrchu nodweddion y sector
- Roedd yn bodloni anghenion yr agenda gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- Roedd yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru
- Fe'i cynigiwyd i'r holl staff sy'n gyfrifol am arwain addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o bob cam gyrfa
- Roedd yn cynnig cyfle i weithio ar draws sectorau.

Gyrfa Cymru Careers Wales

# Adborth gan gwsmeriaid ac astudiaethau achos

Yn ystod 2021-22, cyflwynwyd y cymhwyster yn ddigidol, a oedd yn caniatáu i ni gyflwyno'r cwrs yn genedlaethol. Mae athrawon mewn ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion o bob rhan o Gymru yn cymryd rhan.

"O safbwynt anghenion addysgol arbennig, mae'r Dystysgrif Arweinyddiaeth Gyrfaoedd wedi fy ngalluogi i ailfeddwl am addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a sut mae'n cael ei gyflwyno yn ein lleoliad. Mae wedi fy annog i feddwl y tu allan i'r bocs a chyflwyno'r thema drawsbynciol drwy dasgau effeithiol, cyfoethog yn seiliedig ar ddysgwyr unigol a'u dymuniadau, eu hanghenion a'u dyheadau. Mae datblygu model y gellir ei addasu ar gyfer pob athro a disgybl wedi golygu bod modd darparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed."

**Ceryn Thomas, Ysgol Greenfield**

"Mae'r cwrs wedi rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau gyrfaoedd arbenigol angenrheidiol i mi ddatblygu cwricwlwm gyrfaoedd cynhwysfawr a diddorol yn fy ysgol. Mae'r wybodaeth a'r arweinaid a ddarperir drwy gydol y cwrs wedi galluogi ein hysgol i greu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu addysg gyrfaoedd ar draws pob ystod oedran a gallu. Rhoddodd ddealltwriaeth werthfawr o'r cysylltiadau rhwng y Cwricwlwm i Gymru ac addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a drafodwyd ac a archwiliwyd ar y cwrs yr hyder i mi gyflwyno gwybodaeth yn hyderus i'r [uwch dîm arwain] a'r athrawon dosbarth."

**Jeff Powell, Ysgol Bryn Elian**

## Perfformiad amgylcheddol

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod ei ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd ac yn dymuno rheoli a lleihau'r rhain lle bynnag y bo modd. Ategir ein strategaeth amgylcheddol gan ein hamcan i gefnogi'r targed sero carbon net erbyn 2030. Yn hynny o beth, rydym wedi gweithredu Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd sy'n cael ei harchwilio'n annibynnol.

| | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 |
|---|---|---|---|
| Dŵr (Litrau) | 2,542,000 | 1,742,180 | 1,021,000 |
| Milltiroedd busnes | 860,242 | 57,069 | 209,586 |
| kWh o Drydan | 640,286 | 281,920 | 306,267 |
| kWh o Nwy | 1,637,953 | 1,005,477 | 1,192,737 |
| Tunelli CO2 o nwyon tŷ gwydr | 729 | 343 | 348 |

| Costau ariannol | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|
| Nwy | 30,011 | 21,438 | 20,892 |
| Trydan | 125,441 | 64,319 | 104,723 |
| Dŵr | 12,169 | 9,493 | 5,621 |

Yn 2021-22, roeddem yn gallu ailagor y rhan fwyaf o'n darpariaethau wyneb yn wyneb ar gyfer ein cwsmeriaid a dychwelodd ein cynghorwyr gyrfa i ysgolion. Roedd y staff corfforaethol a'r staff rheoli yn gweithio gartref yn bennaf. Nid yw cyfrifiadau allyriadau CO2 yn ystyried yr ynni a ddefnyddir gan staff sy'n gweithio gartref. Ym mlwyddyn yr adroddiad ariannol nesaf, rydym wedi nodi fformiwla lle y byddwn yn gallu cyfrifo ein hallyriadau CO2 yn sgil gweithio gartref. Felly, nid yw'r rhifau a nodir yn adlewyrchu gwir lefel allyriadau'r cwmni.

Cawsom archwiliad llwyddiannus ar gyfer y cynllun Draig Werdd, gan gyflawni statws Lefel 4. Mae hyn yn golygu bod ein perfformiad amgylcheddol wedi'i ymgorffori ar draws ein hystâd. Rydym wedi mabwysiadu polisïau a phrosesau a fydd yn caniatáu i ni wneud cais am achrediad lefel 5 ym mis Medi 2022. Rydym hefyd yn cynnal adolygiad o'n harferion gwaith cyfredol a strategaeth adeiladau er mwyn dysgu gwersi o'r cyfnod clo.

Gyrfa Cymru Careers Wales

# Ymrwymiadau eraill

## Y Gymraeg

Mae cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn rhan bwysig o'n cynnig ac rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Rydym yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac rydym yn helpu i hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn yr economi.

Mae ein dogfen ar Safonau'r Gymraeg yn esbonio sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ni a chyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg - 2021-2022 was published in September 2021.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yn hollbwysig i ni. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau o ran cael mynediad at ein gwasanaethau i'n holl gwsmeriaid.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y maes hwn ar gael yma.